

# Ymgynghoriad ynghylch Arweiniad CPS ar Atebolrwydd Eilaidd Crynodeb o Ymatebion

## Cyflwyniad

Dyma grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ar yr Arweiniad Cyfreithiol ynghylch Atebolrwydd Eilaidd (a elwid yn flaenorol yn "Weithredu ar y Cyd").

Cyhoeddwyd yr arweiniad dros dro yng Ngorffennaf 2017 a chynhaliwyd ymgynghoriad yn ei gylch am gyfnod o 12 wythnos, a ddaeth i ben ar yr 28<sup>ain</sup> o Fedi 2017.

Diwygiwyd yr arweiniad yn dilyn penderfyniadau y Goruchaf Lys (SC) yn *R v Jogee; Ruddock v Y Frenhines* [2016] UKSC 8; UKPC 7.

Aeth y SC i'r afael â gwarseb ddadleuol "atebolrwydd affeithiwr parasitig" (PAL). Ble roedd PAL yn berthnasol, pe bai dau o bobl (D1 a D2) yn mynd ati i gyflawni trosedd A, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddai D1 yn cyflawni trosedd B, byddai D2 yn euog o fod yn affeithiwr i drosedd B pe bai wedi rhagweld y posibilrwydd y gallai D1 ymddwyn fel y gwnaeth.

Canfu SC fod y gyfraith wedi cymryd troad anghywir 30 mlynedd yn gynharach a'i bod wedi gwneud camgymeriad, oherwydd roedd yn cyfateb rhagweld y gallai D1 gyflawni trosedd B â'r bwriad o gynorthwyo D1 i gyflawni trosedd B. Yr ymagwedd gywir yw trin rhagwelediad o'r fath fel tystiolaeth o fwriad i gynorthwyo D1 â throsedd B.

Roedd y cyfarwyddyd dros dro yn crynhoi prif egwyddorion atebolrwydd eilaidd, fel y'u nodir yn *Jogee*, ac yn cadarnhau sut ddylai erlynwyr fynd i'r afael â phenderfyniadau cyhuddo mewn achosion o atebolrwydd eilaidd, yn enwedig yn achos y rhai sy'n ymwneud â bwriad amodol a'r rhai sy'n ymwneud ag ymosodiadau gan grwpiau.

## Yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad oedd cynnig cyfle i bobl roi sylwadau ynghylch y cyfarwyddyd, er mwyn i'r fersiwn terfynol gael ei lywio gan gymaint ag o safbwyntiau ag y bo modd.

Roedd yr ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd ar wefan CPS, ac fe wnaethom ni dargedu'r sawl sydd â diddordeb penodol mewn gweithredu ar y cyd, yn cynnwys: Seneddwyr, Adrannau eraill y Llywodraeth, erlynwyr CPS, y farnwriaeth, ymarferwyr y gyfraith, academyddion, yr heddlu a grwpiau ymgyrchu. Yn ychwanegol, fe wnaethom ni gyfranogi mewn trafodaeth o amgylch bwrdd gydag academyddion ac ymarferwyr ynghylch y canllawiau, a chynhaliwyd hynny ym Mhrifysgol Rhydychen.

Fe wnaeth yr ymgynghoriad ofyn 4 cwestiwn:

1. A yw'r adran ar *Egwyddorion Atebolrwydd Eilaidd* yn ymdrin yn gywir â'r holl egwyddorion?
2. A yw'r adran ar *Achosion bwriad amodol* yn darparu arweiniad clir sy'n adlewyrchu'n glir y gyfraith ôl-Jogee?
3. A yw'r adrannau ar gyhuddo ymosodiadau gan grwpiau yn darparu arweiniad clir ar sut i fynd i'r afael â phenderfyniadau cyhuddo mewn achosion o'r fath ôl-Jogee?
4. A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ar yr *Arweiniad Cyfreithiol ar Atebolrwydd Eilaidd*?

Cawsom ni gyfanswm o 38 ymateb, yn cynnwys 15 gan y grwp ymgyrchu 'Joint Enterprise Not Guilty by Association' (JENGbA).

Mae'r holl ymatebion wedi cael eu dadansoddi, yn cynnwys rhai a dderbyniwyd ar ôl i'r ymgynghoriad ddo i ben. Mae dadansoddiad o ffynhonnell yr ymatebion ar gael yn Atodiad A.

Cafodd pob ymateb i bob cwestiwn ei ddadansoddi ar wahân a chafodd y prif bwyntiau eu nodi a'u hystyried yn ofalus. Ni wnaeth bob atebydd roi atebion penodol i bob cwestiwn unigol, ond ystyriwyd eu safbwyntiau. Mae'r crynodeb hwn yn mynd i'r afael â'r prif bwyntiau a wnaed gan atebwyr

## **Sylwadau Cyffredinol a Themâu Allweddol**

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r themâu a'r materion cyffredinol a amlygwyd yn rheolaidd yn yr ymatebion a gawsom, ac yn darparu ymateb CPS i bob un o'r rhain.

Cafwyd ymateb cadarnhaol yn gyffredinol i'r Polisi gan nifer o atebwyr. Er enghraifft:

- *Yn gyffredinol, rydym yn ystyried fod yr arweiniad yn drosolwg rhagorol a chllir a bwnc anodd.*
- *Credaf fod eich arweiniad yn delio'n dda dros ben â'r hyn sy'n dal i fod yn faes aneglur/anodd o'r gyfraith mewn sawl ffordd.*
- *Mae hwn yn ymdrech dda i gynnig arweiniad defnyddiol ac effeithiol ... yn gyffredinol, mae wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n hygyrch.*
- *Mae'r arweiniad dros dro yn eglur ac mae'n cynnig cymorth a groesawir i erlynwyr sy'n ystyried y materion gwahanol sydd ar waith wrth benderfynu sut i gyhuddo'r sawl a ddrwgdybir mewn achosion tebyg i rai Jogee.*

Fodd bynnag, fe wnaeth atebwyr eraill fynegi nifer o bryderon cyffredinol ynghylch yr arweiniad. Er enghraifft:

- *Er ein bod ni'n gwerthfawrogi cymhlethdod y maes, o safbwynt heddlu, byddai fersiwn wedi'i symleiddio yn ddefnyddiol iawn.*

- *Nid yw'r arweiniad yn sicrhau o gwbl na wnaiff camweddau barhau yn y dyfodol.*
- *Mae pob rhan yn rhy hir a chymhleth*
- *Yn ei hanfod, mae hwn yn ailwampiad i ganiatáu i'r CPS egluro wrth weithwyr CPS sut gallent sicrhau'r un hen gollfarnau annheg mewn byd ôl-Jogee.*

Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg o'r ymatebion:

### Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r Arweiniad

Dywedodd un atebwr fod angen fersiwn hawdd ei ddefnyddio o'r arweiniad, oherwydd mae hwn yn faes cymhleth o'r gyfraith y mae academyddion ac ymarferwyr yn cydnabod ei fod yn anodd ei ddeall, hyd yn oed iddynt hwy. O gofio'r oblygiadau sydd â'r potensial o fod yn ddifrifol i unigolion a gaiff eu heougfarnu fel partïon eilaidd trais difrifol, yn enwedig llofruddiaeth, mae'n hanfodol fod yr arweiniad yn hawdd ei ddeall. Mae hyn yn neilltuol o wir yn achos pobl ifanc a'r sawl sydd ag anawsterau iechyd meddwl. Awgrymodd yr atebydd y byddai fersiwn 'Hawdd ei Ddarllen' o'r arweiniad yn diwallu'r angen hwn.

Rydym yn cytuno ac fe wnawn ni gyhoeddi fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r arweiniad ar wefan CPS.

### Teitl yr Arweiniad

Teitl yr arweiniad gwreiddiol oedd *Penderfyniadau Cyhuddo Gweithredu ar y Cyd*. Rydym wedi'i ailenwi yn *Atebolrwydd Eilaidd: penderfyniadau cyhuddo ar y prif droseddwr a'r affeithwyr* ar gyfer y cyhoeddiad hwn, ac rydym wedi osgoi defnyddio'r term "gweithredu ar y cyd" yn yr arweiniad ble gellid gwneud hynny. Y rheswm dros hyn yw'r ffaith fod y term ei hun wedi dod yn ddadleuol ac roedd y Goruchaf Lys yn *Jogee* fel pe bai'n osgoi ei ddefnyddio. Yn benodol, rydym yn nodi:

- Dywedodd y Llys: "nid yw'r ymadrodd 'gweithredu ar y cyd' yn derm cyfreithiol penodol...yn anffodus, bydd yn peri rhywfaint o gamddealltwriaeth gan y cyhoedd" [77].
- Y termau a ddefnyddir yn fwy cyffredin yn *R v Jogee* yw "atebolrwydd eilaidd", "prif droseddwr" ac "affeithiwr" neu "barti eilaidd", a ddefnyddir gennym ni yn yr arweiniad.
- Fe wnaeth yr Adroddiad o 2016 *Joint Enterprise: Righting a Wrong Turn* gan yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Troseddau, Birkbeck, Prifysgol Llundain, argymhell y dylai'r llysoedd, CPS ac eraill osgoi defnyddio'r term dadleuol "gweithredu ar y cyd".

Roedd nifer o atebwyr yn croesawu'r newid hwn, ond roedd eraill yn bryderus fod y defnydd o'r term "atebolrwydd eilaidd" yn awgrymu fod unrhyw ddadl neu broblemau a achosir gan y defnydd o werseb atebolrwydd eilaidd wedi diflannu. Yn ychwanegol, mae diffyg tryloywder yn y defnydd o "atebolrwydd eilaidd" ac mae'n atal monitro achosion o weithredu ar y cyd yn y dyfodol. Fel y dywedodd un atebydd, "nid oes dim byd eilaidd am y cyhuddiadau a'r euogfarnau sy'n deillio o erlyniadau gweithredu ar y cyd".

Rydym wedi ystyried a ddylid ddefnyddio'r teitl gwreiddiol eto ond nid ydym ni wedi cael ein perswadio y dylem ni amwybyddu cyfeiriad yr Gorchuaf Lys na'r argymhelliad yn Adroddiad 2016. Rydym ni felly wedi cadw'r un teitl yn y fersiwn terfynol o'r arweiniad

### Adolygiad Lammy / Gangiau

Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, fe wnaeth Adolygiad Lammy, a gadeiriwyd gan David Lammy AS, gyhoeddi ei adroddiad ar driniaeth, a chanlyniadau ar gyfer, Pobl Dduon, Asiaid a Lleifafrifoedd Ethnig (BAME) yn y System Cyfiawnder Troseddol (CJS). Dywedai Argymhelliad 6:

*Dylai'r CPS elwa o'r cyfle, tra bydd yn ailwampio ei arweiniad ynghylch Gweithredu ar y Cyd, i ystyried ei ymagwedd at erlyn gangiau yn gyffredinol.*

Roedd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at yr Adolygiad a'r argymhelliad hwn, a'r ymagwedd at "gangiau" yn gyffredinol. Er enghraifft:

- Gallai hyder yn yr arweiniad gael ei danseilio'n ddifrifol os byddwn ni'n cadw'r cyfeiriadau at "gangiau".
- O gofio fod tystiolaeth yr heddlu yn debygol o gynnwys rhagfarn amlwg neu gudd, dylid cynnwys cyfeiriad penodol ynghylch erlynwyr yn gwirio am ragfarn, yn benodol yn achos pobl a ddrwgdybir a dioddefwyr sy'n BAME.
- Dylai erlynwyr fod yn ofalus cyn disgrifio grwp fel gang, oherwydd mae'n derm sy'n cael ei gysylltu'n awtomatig â throseddolrwydd a diben cyffredin blaenorol.
- Mai ymchwil yn awgrymu fod ychydig iawn o gytuno ynghylch pa grwpiau sy'n gangiau, a thrwy oblygiad, pwy yw aelodau'r gam.

Rydym wedi gweithredu Argymhelliad Lammy wedi diwygio'r ymagwedd at gangiau fel hyn:

- i. Roedd yr adran ynghylch "Cyfranogi" eisoes yn datgan yn glir na fydd tystiolaeth o gysylltiad â neu aelodaeth o grwp neu gang, heb unrhyw dystiolaeth arall, yn ddigonol i gyhuddo affeithiwr o drosedd. Rydym ni wedi ychwanegu at yr adran hon, i gynnig arweiniad penodol ynghylch tystiolaeth yn ymwneud â gangiau: rydym ni'n cynghori erlynwyr i fod yn ofalus ynghylch disgrifio grwp fel "gang", ac i beidio gwneud hynny oni bydd tystiolaeth yn sail i'r honiad; rydym yn cynghori, os defnyddir tystiolaeth o gangiau mewn achos, dylai erlynwyr gyfeirio ar ein arweiniad cyfreithiol newydd ar Gangiau; ac rydym yn cyfeirio at rybudd yr Arglwydd Hughes yn *Myers v R* [2016] AC 314 y dylai erlynwyr wahaniaethu rhwng tystiolaeth eglurhaol a thystiolaeth o duedd wrth geisio cyflwyno tystiolaeth sy'n ymwneud â gangiau.
- ii. Bydd ein harweiniad mewnol ynghylch gangiau yn cael ei droi yn arweiniad cyfreithiol newydd, a bydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan. Bydd yn cynnwys:

- Adran ynghylch Adolygiad Lammy, sy'n cyfarwyddo erlynwyr i barhau i sicrhau na fydd hil / ethnigrwydd yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd at ein proses o wneud penderfyniadau.
  - Crynodeb o gyfraith achosion ynghylch derbynioldeb tystiolaeth yn ymwneud â gangiau, yn cynnwys y rhybudd gan yr Arglwydd Hughes y cyfeirir ato uchod.
- iii. Yn ychwanegol, mae'r arweiniad ynghylch Atebolrwydd Eilaidd yn cynnwys dwy adran sy'n mynd i'r afael â'n hymagwedd at erlyn grwpiau / gangiau: "Cyhuddo ymosodiadau grwp" a "Cyhuddo llofruddiaeth neu ddylnaethiau mewn ynosodiadau gan grwpiau heb arf". Rydym ni wedi gwirio'r adrannau hyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r argymhelliad, yn enwedig i sicrhau nad ydynt yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd at y nifer anghymesur o unigolion BAME sy'n cael eu herlyn am droseddau grwpiau / gangiau.

Dylid nodi'r canlynol:

- Nid ydym ni wedi dileu cyfeiriadau at "gangiau" yn yr arweiniad, oherwydd byddai hynny'n afrealistig ac yn gamarweiniol, o gofio fod rhai achosion yn ymwneud â gangiau a'r ffaith fod cyfraith achosion yn cefnogi derbyn tystiolaeth yn ymwneud â gangiau, pan fo hynny'n berthnasol.
- Ni drafodir yr Argymhellion eraill gan Lammy sy'n berthnasol i'r CPS yn yr arweiniad hwn, ond mae'r CPS wrthi'n ymateb iddynt.

### Rôl CPS o ran gweithredu *Jogee*

Fe wnaeth nifer o atebwyr gyfeirio at sut y maent yn ystyried fod y penderfyniad yn *Jogee* yn ddiffygiol, gan awgrymu ei fod yn aneglur, anelwig, anghyflawn neu'n anghyson ag awdurdodau eraill. Honnai un atebydd fod y Llys wedi camarwain y cyhoedd trwy awgrymu ei fod wedi cywrio'r broblem o weithredu ar y cyd. Gofynnodd rhai atebwyr am i'r CPS fynd i'r afael â'r diffygion canfyddedig hyn trwy gyfrwng ei arweiniad. Nodir enghreifftiau isod.

Safbwynt CPS yw mai ei swyddogaeth yw gweithredu'r gyfraith. Nid lle CPS yw llenwi unrhyw fylchau canfyddedig yn y gyfraith neu bennu beth ddylai'r gyfraith fod os oes unrhyw amwysedd neu anghysondeb canfyddedig yn y gyfraith. Felly, mae'r arweiniad hwn yn ceisio crynhoi prif egwyddorion atebolrwydd eilaidd, fel yr aminellwyr hwy yn *Jogee* ac awdurdodau dilynol, a chynnig cymorth i erlynwyr ynghylch sut i'w gweithredu.

Enghreifftiau:

- Faint o ragwelediad sy'n ofynnol i sefydlu casgliad o fwiad i gynorthwyo neu annog? Mae rhai atebwyr yn awgrymu fod angen rhagweld sicrwydd llwyr i bob pwrpas. Roedd yr arweiniad dros dro y gwnaethom ni ymgynghori yn ei gylch fynd i'r afael â'r broblem hon trwy gydnabod y gall bwriad angenrheidiol D2 fod yn broblemus mewn rhai achosion, megis pe bai D2 yn rhagweld posibilrwydd bychan y byddai D1 yn cyflawni trosedd B. Fodd bynnag, nid ydym ni'n credu ei fod yn briodol i'r CPS bennu faint yn union o ragwelediad sy'n ofynnol. Ni wnaeth *Jogee* hynny (ar waethaf cwestiwn ardystiedig oedd

yn ymwneud â lefel y rhagwelediad oedd yn ofynnol mewn perthynas â'r hen brawf PAL), ac efallai y caiff y mater hwn ei ystyried gan y Llys Apêl yn y dyfodol.

- Mae'r datganiad o'r gyfraith ynghylch dynladdiad ym mharagraff 96 yn anghywir neu'n anghyson ag awdurdodau eraill: rydym ni'n cynnig ymateb manwl i hyn yng Nghwestiwn 1 isod.
- Cafwyd sawl beirniadaeth ynghylch y cysyniad o "fwriad amodol": gweler ein hymateb yng Nghwestiwn 2 isod.
- Mae'r cysyniad o "weithred ddilynol lethol" yn aneglur ac mae'n ansicr sut ac i ba raddau mewn ymwneud â'r cysyniad o "ymadawiad sylfaenol". Nid ydym ni wedi ymhelaethu ynghylch yr un o'r ddau gysyniad, oherwydd lle'r llysoedd fydd diffinio ymhellach beth yw "gweithred ddilynol lethol" ac mae *Jogee* yn dynodi na fydd angen ystyried "ymadawiad sylfaenol" fel arfer.

### Yr ymagwedd yn achos plant a phobl ifanc

Fe wnaeth nifer o atebwyr gynnig sylwadau ynghylch gallu neu ddiffyg gallu plant a phobl ifanc, y mae gan rai ohonynt anabledd cyfathrebu neu ddysgu, i ragweld beth all pobl eraill ei wneud a ffurfio'r bwriad gofynnol fel afeithiwr i drosedd. Er enghraifft:

- Wrth ystyried a oes tystiolaeth ddigonol yn achos pobl ifanc o fwriad a rennir neu fwriad amodol i gyflawni troseddau, a/neu dystiolaeth o ragwelediad, gallai ymwybyddiaeth o astudiaethau o ddatblygiad ymennydd y glasod gynorthwyo erlynwyr.
- Bydd materion penodol y codi wrth ystyried *mens rea* a phlant ... dylai arweiniad CPS ynghylch atebolrwydd eilaidd gael ei addasu pan fydd y sawl sydd dan amheuaeth dan 18 oed.
- Roedd ymateb y Llywodraeth yn 2017 i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ynghylch Oedolion Ifanc (18-25 mlwydd oed) yn 2016 yn datlau nad oes angen cydnabod statws datblygiad mewn deddfwriaeth oherwydd y cyfraniad cynyddol a wneir gan aeddfedrwydd at bolisi ac arferion.

Nodwn fod sylwadau wedi'u cynnig ar ran JustforKids Law yn achos *Jogee* ynghylch y mater o allu pobl ifanc i ffurfio'r *mens rea* gofynnol. Er na wnaeth penderfyniad y llys fynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol, fe wnaeth ddiddymu PAL a chadarnhau'r gyfraith ynghylch atebolrwydd eilaidd, dau beth y gofynnwyd amdanynt yn y sylwadau.

Mae'r mater o aeddfedrwydd ymhlith plant a phobl ifanc a sut mae hynny'n effeithio ar eu heuogrwydd troseddol yn amlwg yn berthnasol o safbwynt ehangach, ac nid yw wedi'i gyfyngu'n unig i achosio o atebolrwydd eilaidd. Er enghraifft, nodwn nad yw oed cyfrifoldeb troseddol (deg) wedi'u bennu gan CPS,, ond gan y senedd, ac ni wahaniaethir ar sail y mathau o droseddau.

Rydym ni hefyd yn cydnabod fod ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder ynghylch Oedolion Ifanc yn datgan:

*Cydnabyddir yn helaeth fel egwyddor gan y sawl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol y bydd oedolion ifanc (a dynion yn enwedig) yn parhau i aeddfedu hyd at ganol eu hugeiniau, yn unol â'r dystiolaeth wyddonol sylweddol a gasglwyd ac a gyflwynwyd gan y Pwyllgor [12].*

Mae CPS wedi mynd i'r afael â'r mater hwn mewn sawl ffordd:

- Mae Paragraph 4.12(b) o'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron (y Cod) yn datgan yn eglur y dylai "oedran neu aeddfedrwydd" gael eu hystyried wrth farnu ynghylch euogrwydd ym mhob achos. Cafodd "aeddfedrwydd" ei gynnwys yn y Cod am y tro cyntaf yn rhifyn 2013.
- Yn ddiweddar, mae CPS wedi atgoffa pob erlynwr o bwysigrwydd ystyried ffactorau "oedran neu aeddfedrwydd" wrth bwysu a mesur a oes angen erlyn.
- Fe wnaeth hyfforddiant newydd ar gyfer erlynwyr sy'n arbenigo mewn erlyn ieuencid gychwyn yn Nhachwedd 2016. Mae'r hyfforddiant yn ystyried datblygiadau diweddar yn ymwneud ag erlyn a dargyfeirio ieuencid, yn cynnwys pwysigrwydd ystyried aeddfedrwydd oedolion ifanc (18-25 mlwydd oed), fel rhan o adolygiad yr erlynwyr a'r broses o wneud penderfyniadau.
- Bydd CPS yn monitro cydymffurfiaeth erlynwyr â'r Cod, yr arweiniad a pholsiau perthnasol trwy gyfrwng Asesiadau Ansawdd Unigol, yn cynnwys asesu proses yr erlyniad o wneud penderfyniadau a pha un ai a yw penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth briodol ac yn rhesymedig.

O ran yr arweiniad ynghylch Atebolrwydd Eilaidd, roedd y fersiwn dros dro eisoes yn mynd i'r afael ag oedran ac aeddfedrwydd yn yr adran ynghylch *Cam budd y cyhoedd*, ac ynddo, fe wnaethom ni ailadrodd testun o baragraff 4.12(b) y Cod, yn ymwneud â phobl sydd dan 18 mlwydd oed. Cedwir y testun yn y fersiwn terfynol.

Yn ychwanegol, gan ystyried yr ymatebion a gawsom ni ynghylch y mater hwn, rydym ni bellach wedi cynnwys y testun canlynol ynghylch aeddfedrwydd yn yr adran hon:

- *Dylai aeddfedrwydd plant neu bobl ifanc gael ei ystyried, yn ogystal â'i oedran cronolegol.*

Rydym ni hefyd wedi anfon yr ymatebion perthnasol at arweinydd polisi CPS ynghylch Troseddwr Ifanc a Throseddwr sy'n Agored i Niwed, fel gellir ystyried y materion mewn cyd-destun ehangach.

### Strwythur yr arweiniad

Er y gwnaeth un atebydd ddweud fod y strwythur yn ddefnyddiol, credai rhai atebwyr fod strwythur yr arweiniad yn anodd i'w ddilyn ac fe wnaethant awgrymu diwygiadau sylweddol neu fychan.

Bwriad y strwythur yn y lle cyntaf yw amlinellu prif egwyddorion atebolrwydd eilaidd, fel y mynegir hwy yn *Jogee*, ac yn ail, i gynnig arweiniad ynghylch sut i weithredu'r prif egwyddorion hyn wrth wneud penderfyniadau cyhuddo. Er ein bod ni wedi

cadw'r strwythur hwn ar y cyfan, rydym ni wedi gwneud ychydig o newidiadau i geisio sicrhau fod yr arweiniad yn haws ei ddilyn.

### Oddi allan i'r cwmpas

Cawsom ni nifer o ymatebion oedd yn mynd i'r afael â materion y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad neu'r arweiniad, ac nid ydym wedi cynnwys y rhan fwyaf ohonynt yn y Crynodeb hwn. Er enghraifft:

- Mater i'r Senedd neu'r Llysoedd yw hyn, nid i CPS.
- Dylai'r arweiniad fynd i'r afael â'r angen i gyfuno a chyhoeddi data ynghylch euogfarnau yn ymwneud ag atebolrwydd eilaidd. Er ein bod yn cydnabod yr awydd i sicrhau hyn, ac rydym ni wedi anfon y cais at dîm Platfform Cyffredin CPS sy'n delio â gweithio digidol traws-CJS, nid ydym yn credu ei fod yn briodol cynnwys hyn yn yr arweiniad. Sylwch, fodd bynnag, ein bod ni wedi cynnwys adran ynghylch cofnodi sail penderfyniadau cyhuddo.
- Cyfeiriadau at achosion penodol, yn cynnwys gweithredu'r gyfraith neu'r arweiniad i'r achosion hyn.
- Nid yw rheithgorau sydd heb eu hysbysu na'u hyfforddi wedi'u paratoi'n dda i ddelio â chymhlethdodau rhai o'r materion sy'n codi mewn achosion atebolrwydd eilaidd. Ni ellir mynd i'r afael â swyddogaeth rheithgorau yn ein system cyfiawnder troseddol yn y ymgynghoriad hwn.
- Dylid rhoi sylw i achosion ynghylch masnachu pobol a llafur gorfodol yn yr arweiniad. Sylwer fod gennym ni arweiniad ar wahân ynghylch [Masnachu, Smyglo a Chaethwasiaeth Pobl](#) sydd ar gael ar wefan CPS.
- Galwadau am ymchwiliad gan y llywodraeth ynghylch camweddau yn deillio o'r defnydd o weithredu ar y cyd.

Lle bo hynny'n briodol, rydym ni wedi trosglwyddo awgrymiadau ac ymatebion i'r arweinyddion polisi perthnasol yn CPS, fel y gallant eu hystyried yng nghyd-destun y portffolios hynny.

## **Diwygiadau**

Yn sgil yr ymatebion a gawsom ni, rydym ni wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i'r Arweiniad. Y prif ddiwygiadau yw'r rhai a nodir uchod a'r rhai a eglurir o dan bob cwestiwn.

## **Crynodeb o ymatebion i Gwestiynau Penodol**

Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o'r prif bwyntiau a'r themâu a godwyd mewn ymateb i bob cwestiwn, a'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth.

### **Cwestiwn 1**

***A yw'r adran ar Egwyddorion Atebolrwydd Eilaidd yn ymdrin yn gywir â'r holl brif egwyddorion?***

Cafwyd 22 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.



Roedd y newidiadau argymelledig nad ydym ni wedi'u gwneud yn cynnwys:

1. Fe wnaeth atebwyr fynegi nifer o bryderon ynghylch sut mae *Jogee* yn delio â dynlladiad, yn cynnwys cyfeiriadau at erthyglau academaidd ynghylch y mater.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Mae *Jogee* yn anghywir i gadarnhau y gall D2 fod yn atebol am ddynladdiad lle mae D1 wedi cael ei euogfarnu am lofruddio, oherwydd mae'n ofynnol i brofi fod yr wffeithiwr wedi bwriadu i D1 gyflawni actus reus y drosedd berthnasol â'r mens rea gofynnol.
- Ni fydd dynladdiad yn sgil gweithred anghyfreithlon a pheryglus yn gydnaws bob tro ag atebolrwydd effeithiol, oherwydd mae'n ofynnol cael cysylltiad achosol rhwng y weithred anghyfreithlon a marwolaeth y dioddefydd, ond nid oes angen unrhyw gysylltiad achosol rhwng ymddygiad yr affeithiwr a gweithred y prif droseddwr.
- Mae'r cyfeiriad at *waethygu* trais yn *Jogee* yn gwyro oddi wrth y paradeim o ddynladdiad yn sgil gweithred anghyfreithlon a pheryglus, lle bydd D yn bwriadu cynorthwyo trais heb gyflawni GBH, ond bydd marwolaeth yn digwydd.
- Mae angen arweiniad ynghylch sut i benderfynu beth yw'r weithred beryglus anghyfreithlon os bydd mwy nag un i ddewis o'u plith fel y "drosedd sylfaenol" (e.e. bwrgeriaeth/yMosod).

Nodwn fod *Jogee* wedi ceisio ail-lunio'r terfynnau rhwng llofruddiaeth a dynladdiad. Yn benodol, gweler: y dadansoddiad helaeth o awdurdodau ynghylch dynladdiad yn cychwyn ym mharagraff 27; y cysylltiad a wneir gan y llys rhwng yr awdurdodau hyn, y mae rhai ohonynt yn cyfeirio at *waethygu* trais, a'i ailddatganiad o egwyddorion dynladdiad yng nghyd-destun atebolrwydd eilaidd [33; 74; 69; 96]; y gwahaniaethu a wneir rhwng gwaethygu trais (manslaughterdynladdiad) a gweithred ddilynol lethol (dim atebolrwydd) [33; 96; 97]; a sylwadau'r llys sy'n awgrym fod y gyfraith ynghylch llofruddiaeth wedi cael ei goresgyn a'r gyfraith ynghylch dynladdiad wedi cael ei lleihau yn flaenorol [74; 83].

O gofio'r archwilio manwl hwn ac ailddatgan egwyddorion dynladdiad, nid ydym ni'n credu y byddai'n briodol gwyro oddi wrth yr egwyddorion fel yr amlinellir hwy yn y penderfyniad. Felly, er ein bod ni'n gwerthfawrogi'r sylwadau cynnil ynghylch cyfraith dynladdiad gan atebwyr, nid ydym ni wedi diwygio'r arweiniad yn unol â'r safbwyntiau hyn.

Nid ydym ni ychwaith wedi cynnig arweiniad ynghylch materion y mae'n well delio â hwy fel rhan o achosion unigol, megis pennu beth yw'r weithred beryglus anghyfreithlon, pan fydd mwy nag un i ddewis o'u plith fel y "drosedd sylfaenol".

2. Awgrymodd un atebydd y dylem ni ddiystyru'r cydnyiad o weithred ddilynol lethol yn gyfan gwbl, oherwydd mae'n culhau'r prawf ynghylch "gwahaniaeth sylfaenol" ac nid yw'n darparu unrhyw fanylion. Rydym yn anghytuno oherwydd mae hyn yn amlwg yn rhan o'r gyfraith ynghylch atebolrwydd eilaidd yn dilyn *Jogee*.

3. Gofynnodd un atebwr am ragor o arweiniad ynghylch y cysyniad o "ymadawiad sylfaenol". Nid ydym ni wedi gwneud hyn oherwydd mae'r llys yn *Jogee* yn

pwysleisio na fydd angen ei ystyried fel arfer [98] ac nid yw'r bwriad wedi'i fwriadu i fod yn destun academaidd.

4. Awgrymodd un atebydd fod *Jogee* a'r arweiniad yn anghywir ar brydiau i fynegi mens rea'r afweithwir fel bwriad i annog / cynorthwyo D1 i gyflawni'r drosedd, o'i gyferbynnu â bwriad i annog / cynorthwyo D1 i *weithredu â'r bwriad* o gyflawni'r drosedd. Rydym yn gwerthfawrogi mai'r ail o'r rhain yw'r prawf cywir, ond fel y dywedir yn *Jogee*, mewn achosion o ymosodiad corfforol ar y cyd, efallai na fydd gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddau ac efallai bydd yn symlach ac yn ddiogel i gyfarwyddo'r rheithgor yn unol â mynegiant blaenorol y prawf [90]. Felly, nid ydym ni wedi diwygio'r arweiniad mewn perthynas â hyn.

5. Gofynnodd un atebydd am arweiniad cliriach ynghylch bwriad anuniongyrchol. Nid yw hyn yn gysyniad a drafodir yn *Jogee*, ac er y gallai haeddu sylw mewn trafodaeth academaidd, credwn y byddai ei gynnwys yn yr arweiniad yn ddrislyd ac yn ddiwerth.

6. Awgrymodd un atebydd y dylem ni ehangu ynghylch y gofyniad *mens rea* ynghylch gwybodaeth am ffeithiau sydd eisoes yn bodoli i wneud y weithred yn drosedd, i gynnwys y pwynt a drafodwyd yn achos cynllwyn *Saik*, ynghylch cred am amgylchiadau'r dyfodol. Rydym yn gweithfario'r pwynt ond nid ydym yn dymuno gwneud yr arweiniad yn rhy academaidd neu dechnegol, a nodwn fod *Jogee* yn mynd i'r afael yn rhannol ag amgylchiadau'r dyfodol trwy'r cysyniad o fwriad amodol. Felly, nid ydym ni wedi ehangu ynghylch y cysyniad o wybodaeth yn y modd a awgrymwyd.

7. Awgrymodd un atebydd na ddylai CPS gyhuddo oni bydd tystiolaeth cryf fod yr anogaeth wedi gwneud gwahaniaeth oedd yn fwy na bychan neu ddibwys. Nid ydym yn cytuno mai dyma'r prawd, ond yn yr adran ynghylch budd y cyhoedd, rydym ni'n cynnwys lefel cyfranogiad y sawl a gyhuddir fel ffactor i'w ystyried yn y broses cyhuddo.

#### Prif newidiadau o ganlyniad i'r adborth

1. Gofynnwyd i ni gadarnhau nad oes angen i D2 fwriadu i D1 gyflawni'r drosedd berthnasol, oherwydd mae *Jogee* yn ystyried y mater hwn mewn modd llac.. Awgrymodd atebydd arall y dylem ni ddefnyddio'r esiampl ym mharagraff 90 yn *Jogee*, ynghylch D2 yn cyflenwi arf i D1, i amlygu'r pwynt hwn. Rydym ni wedi gwneud hyn.
2. Awgrymodd rhai atebwyr fod yr arweiniad yn anghywir wrth ddweud nad yw'n ofynnol profi fod ymddygiad D2 mewn gwirionedd wedi annog / cynorthwyo D1. Rydym ni wedi ailystyried paragraff 12 *Jogee* ynghylch achosiad, sy'n dweud nad oes angen i'r erlyniad brofi fod yr anogaeth wedi *dylanwadu'n gadarnhaol* ar ymddygiad D1 neu ar y canlyniad. Rydym yn derbyn y gallai ein geiriad gael ei ddehongli'n wahanol i'r geiriad yn *Jogee* ac felly rydym ni wedi newid y geiriad yn unol â pharagraff 12.
3. Dywedodd rhai atebwyr fod caffael, na chafodd sylw yn *Jogee*, yn ei gwneud yn ofynnol i'r parti eilaidd fwriadu i'r prif droseddwr gyflawni'r drosedd, ac mae angen

cysylltiad achosol rhwng cyfraniad D2 a throstedd D1. Rydym yn cytuno ac rydym ni wedi cadarnhau hyn yn yr arweiniad.

4. Gofynnodd rhai atebwyr i ni gadarnhau fod y cysyniad o "weithred ddilynol lethol" yn gymwys nid yn unig mewn achosion o ddynladdiad, ond mewn troseddau eraill hefyd. Rydym ni wedi gwneud hyn.
5. Yn y pwynt beled cyntaf dan yr isadran *mens rea*, rydym ni wedi cadarnhau fod y *mens rea* gofynnol ar gyfer affeithiwr i drosedd o dan ss5-8 Deddf Troseddau Rhyw 2003 yw bod D2 yn gwybod fod y plentyn da 13 mlwydd oed.
6. Awgrymodd un atebwr fod gan y term "ieuenctid" arwyddocâd negyddol ac y dylem ni yn lle hynny gyfeirio at "blant a phobl ifanc", sef y term a ddefnyddir yng Nganllaw y Cyngor Dedfrydu ynghylch "Dedfrydu Plant a Phobl Ifanc" 2017. Rydym ni wedi newid un cyfeiriad at "ieuenctid" yn unol â hynny. Fodd bynnag, roedd y ddau arall yn cyfeirio at ein harweiniad ynghylch Troseddwy Ifanc a'r System Cyfiawnder Ieuenctid, ac nid ydynt wedi'u newid. Rydym ni wedi anfon yr awgrym at arweinydd polisi perthnasol CPS i'w ystyried ymhellach.

## **Cwestiwn 2**

### ***A yw'r adran ar achosion bwriad Amodol yn darparu arweiniad clir sy'n adlewyrchu'n glir y gyfraith ôl-Jogee?***

Cafwyd 20 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y newidiadau argymelledig nad ydym ni wedi'u gwneud yn cynnwys:

1. Fe wnaeth atebwyr sawl beirniadaeth ynghylch y cysyniad o "fwriad amodol". Roedd y rhain yn cynnwys:

- *Mae ystyr bwriad amodol yn aneglur ac mae diffiniad Jogee yn gylchol*

Nid ydym yn cytuno ac rydym ni wedi'i ddiffinio fel y caiff ei ddiffinio a'i esbonio yn *Jogee*. Fodd bynnag, rydym ni wedi ychwanegu enghraifft ychwanegol o *Jogee*: gweler isod.

- *Nid yw bwriad amodol yn wahanol i fwriad neu mae'n is-set o fwriad.*

Gall hyn fod yn gywir ond at ddibenion darparu arweiniad trylwyr i erlynwyr, mae'n ddefnyddiol dadansoddi'r cysyniad o fwriad fel hyn, yn enwedig wrth ddadansoddi ffeithiau achosion o fath trosedd A / trosedd B.

- *Bydd bwriad amodol yn dymchwel yn rhwydd yn fyrbwylltra (bydd D yn rhagweld canlyniad posibl ei ymddygiad ond bydd yn mynd ati i ymddwyn felly beth bynnag), felly dylai'r arweiniad egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau.*

Rydym ni'n gwerthfawrogi y gall y gwahaniaeth fod yn un cul mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol datgan hyn yn yr arweiniad oherwydd gallai beri dryswch yn lle cadarnhau'r *mens rea* gofynnol. Fe wnaethom ni ystyried hefyd a yw'r adran efallai yn awgrym y gall

rhywbeth llai na bwriad amodol, megis byrbwylltra, fod yn ddigon. Nid ydym yn credu ei fod (mae'n dibynnu ar iaith *Jogee* ac *Anwar*), felly nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau mewn perthynas â hyn.

2. Ni ddylai'r arweiniad gynghori erlynwyr i wrthwynebu pob argymhelliad o ddim achos i'w ateb i ddatgan fod prawf o fwriad ar sail rhagwelediad yn annigonol. Rydym yn anghytuno, oherwyd dmae *Jogee* ac *Anwar* yn nodi'n glir y gall bwriad gael gasglu o ragwelediad mewn rhai amgylchiadau, ac mae'r casgliad yn gwestiwn o ffaith ar gyfer rheithgor. Yn ychwanegol, rydym yn cynnig arweiniad sy'n nodi y dylid, wrth wneud penderfyniadau cyhuddo sy'n seiliedig yn rhannol ar *Iefel isel* o ragwelediad, rhaid gofalu sicrhau fod yr holl dystiolaeth yn yr achos yn cyflawni'r trothwy cyhuddo. Rydym hefyd yn nodi fod y trothwy tystiolaeth ar gyfer cyhuddo yn uwch na'r trothwy a ddefnyddir pan argymhellir dim achos i'w ateb.

3. Mae dibynnu ar *Anwar* yn anghywir oherwydd mae'r cymalau a ddyfynnir ynghylch y dystiolaeth y gellir dibynnu arnynt i brofi rhagwelediad / bwriad yn obiter ac nid ydynt yn adlwyrchu'r penderfyniad a'r rhesymu yn *Jogee*. Rydym ni'n anghytuno, oherwydd nid ydym ni'n awgrymu yn yr Arweiniad fod *Anwar* yn gosod cysail nac yn datblygu'r gyfraith mewn ffordd sy'n wahanol i *Jogee*; yn syml, mae'n egluro ac yn cadarnhau'r penderfyniad yn *Jogee*.

#### Prif newidiadau o ganlyniad i'r adborth

Gall achosion o fwriad amodol godi lle na bydd unrhyw gyd-fenter droseddol flaenorol

ond nid yw'r arweiniad yn datgan hyn yn glir. Rydym ni'n cytuno ac rydym ni wedi cadarnhau hyn ym mhargraff cyntaf yr adran.

2. Awgrymodd rhai atebwyr nad yw'r termau "pe bai'r achos yn codi" ac "os bydd yr angen yn codi" yn ddigonol i egluro bwriad amodol, neu dylai CPS eu hegluro'n fanylach. Yn yr arweiniad, rydym ni'n disgrifio bwriad amodol fel y'i disgrifir yn *Jogee*, gan ddefnyddio'r un termau. Ni fyddai'n ddefnyddiol diffinio'r termau ymhellach, oherwydd ni wnaeth y llys yn *Jogee* wneud hynny a gallent ymwneud ag amrywiaeth o senarios ffeithiol. Roedd yr arweiniad dros dro eisoes yn cynnwys un o'r enghreifftiau a gynhwysir yn *Jogee*, ond i ymateb i'r pryder a fynegwyd gan atebwyr, rydym ni wedi ychwanegu'r enghraifft arall, o'r lladrad mewn banc.

3. Dylai'r llinell olaf ond un yn y paragraff olaf nodi "prawf o fwriad ar sail rhagwelediad" yn hytrach na dim ond "rhagwelediad". Rydym yn cytuno ac rydym ni wedi gwneud y newid hwn.

### **Cwestiwn 3**

***A yw'r adrannau ar gyhuddo ymosodiadau gan grwpiau yn darparu arweiniad clir ar sut i fynd i'r afael â phenderfyniadau cyhuddo mewn achosion o'r fath ôl-Jogee?***

Cafwyd 15 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y newidiadau argymelledig nad ydym ni wedi'u gwneud yn cynnwys:

1. Awgrymodd rhai atebwyr nad yw adran ar wahân ynghylch ymosodiada gan grwpiau heb arf yn ofynnol, oherwydd mae *Jogee* yn cadarnhau nad yw achos sy'n cynnwys arf yn wahanol yn bendant i achos sydd ddim yn cynnwys arf. Rydym yn cydnabod fod *Jogee* yn annog peidio rhoi gormod o sylw i wybodaeth cydymaith am arf benodol, fodd bynnag, mae *R v Johnson* yn cadarnhau fod gwybodaeth am arf yn dal yn hynod o berthnasol o ran casglu ynghylch bwriad. Mae'n ddefnyddiol felly cynnig arweiniad i erlynwyr ynghylch yr ymagwedd i'w chymryd yn achos dynladdiadau heb arf, yn enwedig o gofio fod yr ymagwedd wedi newid ôl-*Jogee*.

2. Cynghorodd un atebydd na ddylem ni wahaniaethu rhwng bwriad amodol a bwriad syml, wrth ystyried penderfyniadau cyhuddo. Er ein bod yn gwerthfawrogi fod bwriad amodol yn fath o fwriad, rydym yn credu ei fod yn ddefnyddiol rhannu'r dadnoddad sy'n ofynnol i wneud penderfyniad cyhuddo yn gamau neu gwestiynau syml, ar wahân, fel yr amlinellir yn *Jogee*.

3. Awgrymodd un atebwr y dylai'r arweiniad gyfarwyddo erlynwyr i beidio cyhuddo diffynnydd y ceir tystiolaeth wan yn ei erbyn, dim ond i ennyn tystiolaeth yn yr achos ynghylch beth maent wedi'i ddweud i argyhuddo cyfranogwyr eraill. Rydym ni'n cytuno na ddylai erlynwyr gyhuddo ar y sail hwn ond nid oes angen cynnwys cyfarwyddiadau yn yr arweiniad, oherwydd mae erlynwyr yn gwybod fod angen iddynt weithredu'r Cod Prawf Llawn yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth wneud penderfyniadau cyhuddo.

#### Prif newidiadau o ganlyniad i'r adborth

1. Dywedodd rhai atebwyr fod yr honiad yn yr adran ynghylch ymosodiadau gan grwpiau heb arf sy'n nodi "ni fydd amheuaeth fod rhywun wedi cyflawni llofruddiaeth mewn achosion lle defnyddir arf marwol" yn gorbwysleisio'r safbwynt. Rydym yn cytuno ac rydym wedi newid y llinell fel hyn: "*yn amhni* fydd anheuaeth ...".

2. Mae'r arweiniad yn datgan, mewn achosion o ddynladdiad lle na ellir adnabod pwy yw'r lladdwyr neu'r prif droseddwr a phwy yw'r affeithwyr, mae'n ofynnol profi fod rhywun wedi cyflawni "llofruddiaeth". Awgrymodd un atebydd y dylid newid hyn i nodi "llofruddiaeth neu ddynladdiad". Rydym ni'n cytuno ac rydym ni wedi gwneud hyn.

#### **Cwestiwn 4**

#### ***A oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach ynghylch yr Arweiniad Cyfreithiol ar Atebolrwydd Eilaidd?***

Cafwyd 32 ymateb i'r cwestiwn hwn.

Roedd y newidiadau argymelledig nad ydym ni wedi'u gwneud yn cynnwys:

1. Awgrymodd rhai atebwyr nad yw achosion o fath Trosedd A a Trosedd B bellach yn bodoli ôl-*Jogee* (oherwydd mae PAL wedi'i ddi-ddymu) ac ni ddylid cyfeirio ato yn yr arweiniad. Rydym yn anghytuno: mae *Jogee* [94] yn cyfeirio at y math hwn o drosedd, ac yn ymarferol, bydd y senario ffeithiau sy'n arwain at y math hwn o

drosedd yn parhau i fodoli. Mae'n dal yn ofynnol i gyfeirio at y math hwn o drosedd er mwyn cadarnhau i erlynwyr beth yw'r gyfraith mewn perthynas â hynny.

2. Yn yr adran "Tri math o drosedd sy'n ymwneud â phartïon lluosog", mae angen manylu ynghylch yr ail enghraifft o drosedd math 3, oherwydd ni fyddai D2 yn atebol am ddynladdiad pe bai D1 yn cyflawni trosedd wahanol i'r un a gynorthwyr / anogir gan D2. Rydym yn cytuno y bydd adegau pan na fydd D2 yn atebol o gwbl, megis pan fydd gweithred ddilynol lethol neu lle bydd D2 wedi tynnu'n ôl o'r gweithredu ar y cyd. Fodd bynnag, trafodir y cysyniadau hyn mewn rhannau eraill o'r arweiniad, ac rydym yn dymuno sicrhau fod yr enghreifftiau mor syml ag y bo modd.

3. Awgrymodd un atebudd nad yw'n ofynnol i'r adran "Tri math o drosedd yn cynnwys partïon lluosog" gynnwys yr enghreifftiau o brif atebolrwydd ar y cyd, oherwydd maent yn wrthdynciad. Rydym yn gwerthfawrogi fod prif atebolrwydd ar y cyd yn wahanol i egwyddorion atebolrwydd eilaidd, ac rydym ni wedi gwneud hynny'n glir yn yr adran. Fodd bynnag, credwn ei fod yn fuddiol cynnwyl esboniad ynghylch troseddu gan gyd-brif droseddwr, fel na ddrysir rhwng hynny ag atebolrwydd affeithwyr.

4. Gofynnodd un atebwr am i'r arweiniad ddarparu rhestr nad yw'n gyflawn o'r holl ddewisiadau i ddisbrifio'r cyfraniad yr honnir a wnaed gan D, at ddiben cofnodi'r penderfyniad cyhuddo. Credwn fod hyn yn rhy fanwl ar gyfer yr arweiniad, oherwydd bydd y cyfraniad penodol yn amrywio fesul achos ac ni ellir ei ddisgrifio heb gyfeirio at ffeithiau'r achos.

5. Awgrymodd un atebudd y dylai troseddau o dan Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 (SCA) gael eu cynnwys ar ddechrau'r arweiniad, oherwydd mae arfer da yn mynnu y dylid dibynnu arnynt yn lle egwyddorion atebolrwydd eilaidd. Nid ydym yn cytuno, oherwydd byddai llawer o achosion yn cael eu cymhlethu'n ddiangen trwy gyhuddo prif droseddwr o drosedd sylweddol, megis lladrad, a byddai affeithwyr yn cael eu cyhuddo o drosedd SCA. Rydym yn cynnig arweiniad manwl ynghylch pryd gallai fod yn briodol i gyhuddo rhywun o drosedd SCA.

#### Prif newidiadau o ganlyniad i'r adborth

1. Gofynnodd nifer o atebwyr am ragor o fanylion ynghylch prif droseddwr a throeddwr eilaidd, yn cynnwys arweiniad ynghylch sut i wahaniaeth rhwng y dda. Er enghraifft, gofynnodd un atebudd i ni gadarnhau nad yw'r holl bartïon i ddiben cyffredin yn brif droseddwr ar gyfer pob trosedd a gyflawnir yn unol â'r diben hwnnw (gallant fod yn affeithwyr), sy'n gyfraith ers 1967. Er ein bod yn gwerthfawrogi y gall y gwahaniaeth rhwng prif droseddwr ac affeithwyr fod yn fwy cynnil na'r hyn rydym ni'n ei amlinellu yn yr arweiniad, nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol gwneud yr arweiniad yn rhy gymhleth neu academaidd. Yn aml iawn, ni fydd gwahaniaethu rhwng prif droseddwr ac affeithwyr yn ofynnol, ac efallai na fydd hynny'n glir bob amser o ran y ffeithiau. Mewn achosion lle bo hynny'n ofynnol, gwneir hynny trwy archwilio *actus reus* y drosedd a gweithredoedd y sawl a amheuir, ac mae rhagor o arweiniad cyffredinol yn anhebyg o gynorthwyo. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud rhywfaint o newidiadau bychan i'r arweiniad ynghylch y mater hwn:

- Yn yr adran “Partïon i drosedd”, rydym ni'n cadarnhau mai prif droseddwr yw'r un sy'n cyflawni *neu'n achosi* actus reus y drosedd.
- Yn y cyntaf o'r tri senario yn ymwneud â phartïon lluosog, rydym wedi cadarnhau nad yw egwyddorion atebolrwydd eilaidd yn gymwys, oherwydd nid oes neb o'r partïon yn affeithwyr.
- Rydym wedi newid y trydydd enghraifft o gyd-bryf droseddwr yn yr adran the third example of joint principals in the section “Tri math o drosedd yn cynnwys partïon lluosog”, i gadarnhau fod D1 a D2 yn gweithredu *gyda'i gilydd* yn y fwrgheriaeth, fel *cyd-brif* droseddwr.

2. Cynghorodd un atebydd na ddylem ni ddefnyddio'r gair “cyd-droseddwr” ar gyfer parti eilaidd, oherwydd gall awgrymu cyd-brif droseddwr. Rydym yn cytuno ac rydym ni wedi newid yr holl gyfeiriadau at “gyd-droseddwr” i “affeithiwr”.

3. Mewn ymateb i gais gan un atebydd, yn yr adran ynghylch “Y partïon i drosedd”, rydym ni wedi cadarnhau fod rhai i bob trosedd fod ag o leiaf un prif droseddwr.

## Y Camau Nesaf

Mae'r Arweiniad dros dro bellach wedi cael ei ddisodli gan yr Arweiniad terfynol, a ddaw i rym ar 22 Mai 2018, a chaiff ei gyhoeddi gyda'r Crynodeb hwn.

## Casgliad

Rydym ni'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym ni'n fodlon fod yr ymatebion wedi'i harwain ni i wneud newidiadau sydd wedi sicrhau Arweiniad mwy eglur a gwell.

**Atodiad A**  
**Ffynhonnell yr Ymatebion**

<b>SECTOR</b>	<b>ENW</b>	<b>SEFYDLIAD</b>
<b>ACADEMAIDD</b>	Catarina Sjolin Knight	Prifysgol Nottingham Trent
	Yr Athro Dennis J. Baker	Prifysgol Surrey
	Yr Athro Jeremy Horder	Ysgol Economeg Llundain
	Dr Findlay Stark	Prifysgol Caergrawnt
	Dr Beatrice Krebs	Prifysgol Reading
	Dr Mark Dsouza	Coleg Prifysgol Llundain
	Becky Clarke a Patrick Williams	Prifysgol Metropolitan Manceinion
	Dr Susie Hulley a Dr Tara Young	Prifysgol Caergrawnt / Prifysgol Caint
	Rebecca Williams	Prifysgol Rhydychen
	Dr John Child	Prifysgol Sussex
	Matthew Dyson	Prifysgol Rhydychen
<b>CPS</b>		CPS
<b>Y GYFRAITH</b>	Becky Flood	Kingsley Napley LLP
	Felicity Gerry QC	Carmelite Chambers
	Janet Arkinstall	Cymdeithas y Cyfreithwyr
	Leigh Webber	Cymdeithas Cyfreithwyr Llysoedd Torseddol Llundain
	Francis Fitz-gibbon QC	Doughty Street Chambers
<b>SEFYDLIAD</b>	Kate Aubrey-Johnson	Just For Kids
	Dr Laura Janes	Cynghrair Howard er Diwygio Cosbau
	Peter Dawson	Yr Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai
	Gloria Morrison	'Joint Enterprise Not Guilty by Association' (JENGBA)
	anhysbys	JENGBA
	Kevan Thakrar	JENGBA
	Roger Morgan	JENGBA
	Steven Kidd	JENGBA
	Maureen Smith	JENGBA
	Joseph Jenkins	JENGBA
	Ashleigh Robinson	JENGBA
	David Taylor	JENGBA
	Arzan Khan	JENGBA



	Charlotte Coulson	JENGBA
	Chris Reed	JENGBA
	Danny Dixon	JENGBA
	Mark Brown	JENGBA
	Charlotte Henry	JENGBA
	Claire Brader	Heddlu Trafnidaeth Prydeinig
<b>LLYWODRAETH</b>	Lucy Powell AS	AS dros Ganol Mancienion
	Bob Neill AS	Cadeirydd, Pwyllgor Cyfiawnder